

# Llais Tenantiaid yng Nghymru




**TPAS Cymru yw sefydliad ymgysylltu â thenantiaid Cymru.**

**Credwn fod tenantiaid o'r sectorau tai cymdeithasol a phreifat angen i'w lleisiau gael eu clywed gan eu landlordiaid, llunwyr polisi ar bob lefel, a chan ei gilydd.**

Mae cyfranogiad tenantiaid a landlordiaid sy'n bodoli ledled Cymru yn amrywio yn ei lwyddiant. Fodd bynnag, mae hefyd yn hanfodol bod lleisiau tenantiaid yn cael eu clywed ar lefel uwch o fewn Llywodraeth Cymru, gyda gwleidyddion, cyrff statudol a llunwyr polisi.

Rydym yn defnyddio amrywiol ddulliau i alluogi tenantiaid yng Nghymru i gael eu clywed, i lunio a dylanwadu ar dai yng Nghymru. Mae'r canllaw hwn yn cynnig trosolwg o sut mae TPAS Cymru, ynghyd â thenantiaid, yn sicrhau bod lleisiau o wahanol ddiwylliannau a chefnidiroedd yn cael eu clywed.

Mae TPAS Cymru yn cynnig ystod amrywiol o ffyrdd i denantiaid leisio eu barn, ac mae hyn yn golygu ei bod yn agored ac yn gynhwysol i bob tenant ymgysylltu mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw ac nad y rhai sy'n gweiddi uchaf yw'r unig rai sy'n cael eu clywed. Rydym eisiau i'n gwaith a lleisiau tenantiaid adlewyrchu'r gymuned tenantiaid gyfan yng Nghymru.




# Ffyrdd y mae eich llais yn cael ei glywed ar a **lefel genedlaethol**



## 1. Pwls Tenantiaid

Pwls Tenantiaid yw ein Llwyfan Arolwg Cenedlaethol. Gall tenantiaid o bob rhan o Gymru, boed yn dai cymdeithasol neu'n dai preifat, ddweud eu dweud ar y materion sydd o bwys. Rydym yn gweithio gyda thenantiaid, llunwyr polisi, Llywodraeth Cymru ac ati i archwilio materion cyfoes a sicrhau bod llais y tenant yn cael ei glywed. Mae adroddiadau Pwls Tenantiaid yn dylanwadu'n rheolaidd ar benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru a llunwyr polisi.



## 2. Tenantiaid yn llunio TPAS Cymru a Pwls

Rydym eisiau i Pwls Tenantiaid a'n gwaith gael ei lunio gan denantiaid. I'n cefnogi, rydym wedi gweithio gyda dau grŵp cynghori o denantiaid amrywiol sydd â phrofiad byw o bob deiliadaeth.



## 3. Fforwm Llais Tenantiaid Cymru

Mae Fforwm Llais Tenantiaid Cymru TPAS Cymru yn rhoi cyfle i denantiaid drafod yn uniongyrchol a rhoi eu barn i rai o'r penderfynwyr tai mwyaf blaenllaw yng Nghymru. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn boblogaidd a llwyddiannus iawn.



## 4. Rhwydweithiau Tenantiaid


Mae Rhwydweithiau Tenantiaid ar-lein misol yn rhoi llwyfan i denantiaid o bob rhan o Gymru drafod materion y dydd gyda thenantiaid eraill ac yn darparu gofod i rannu arfer da am gyfranogiad tenantiaid a llais y tenant. Mae'r rhwydweithiau hyn hefyd yn gyfle i denantiaid roi eu barn a chlywed gan lunwyr polisi.



## 5. Gwranddo Ar-lein

Mae TPAS Cymru wedi ymrwymo i swyno lleisiau tenantiaid o ystod eang o gefndiroedd, nid dim ond y rhai mwyaf llafar.

Rydym wedi nodi ystod o fforymau, grwpiau, a manau preifat ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, NextDoor, Reddit, Discord, ac ati. Trwy gysylltu â dylanwadwyr tenantiaid a chymunedau ar-lein, mae ymddiriedaeth ynom i glywed llais y tenant sy'n caniatáu i ni nodi themâu a materion sy'n dod i'r amlwg, y byddwn yn eu dwyn i sylw'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru ar unwaith.



## 6. Gwaith Achos

Rydym yn derbyn galwadau cyson gan denantiaid yn gofyn am gyngor ar amrywiaeth o faterion o fewn tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat. Er na allwn roi cyngor neu arweiniad cyfreithiol, rydym yn cynorthwyo lle y gallwn, neu'n cyfeirio at sefydliadau cymorth mwy priodol. Caiff hyn ei olrhain a'i fwydo i mewn i Lywodraeth Cymru a llunwyr polisi eraill i lywio eu penderfyniadau.

# Llais Tenantiaid o fewn Llywodraeth Cymru:

## Dylanwadu'r system

Ar hyn o bryd mae tai yn rhan o bortffolio Ysgrifennydd Cabinet (Gweinidog gynt), a chânt eu cefnogi gan adran dai'r gwasanaeth sifil.

Er mai'r Adran Dai yw'r rhan fwyaf o'r cydweithio sydd gennym, rydym hefyd yn ymgysylltu ag adrannau eraill fel: Sero Net/Economi Gylchol, Cymunedau, Cydraddoldeb, Addysg, Iechyd a Llywodraeth Leol.

O ran dylanwad, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cymryd llawer o gyngor gan weision sifil. Mae TPAS Cymru yn ymgysylltu â gweision sifil naill ai'n uniongyrchol, neu drwy'r cyfleoedd rydym yn eu creu i'r cydweithwyr hyn gwrdd â thenantiaid a chlywed eu barn. Drwy'r perthnasoedd rydym wedi'u datblygu gyda gweision sifil, rydym wedi dylanwadu ar ddeddfwriaeth yng Nghymru yn seiliedig ar farn tenantiaid.

Yn ogystal â TPAS Cymru yn clywed llais y tenant ac yn cymryd hynny i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru, rydym yn creu cyfleoedd i denantiaid gyfarfod a thrafod materion gyda gweision sifil yn uniongyrchol. Rydym yn gwneud hyn drwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau bod llais y tenant yn gallu cyrraedd Llywodraeth Cymru ac uwch arweinwyr.

## Papurau ymgynghori Gwyn a Gwyrdd

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymarferion ymgynghori, mae TPAS Cymru wedi ymrwymo i sefydlu digwyddiadau briffio a chyfleoedd gwranddo i denantiaid ddeall y materion sy'n cael eu trafod a rhoi eu barn. Rydym yn ymfalchio mewn hwyluso'r cyfleoedd hyn ar gyfer mewnbwn tenantiaid.

## Cyfarfod Ysgrifennydd y Cabinet

Ysgrifennydd i drafod materion polisi penodol. Mae cyfarfodydd o'r fath yn creu llawer o ddadlau a thrafodaeth, gyda TPAS Cymru wastad yn cynrychioli llais tenantiaid a gofynnir i wneud hynny.

O bryd i'w gilydd, bydd TPAS Cymru yn cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet ar sail un-i-un i drafod blaenoriaethau polisi megis setliad rhent, rheoleiddio, a pherchnogaeth a rennir.

Mae rhai tenantiaid eisiau cwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet. Er ein bod ar hyn o bryd yn trefnu digwyddiadau lle mae'r Gweinidog yn bresennol ac yn traddodi araith, rydym yn archwilio ffyrdd newydd o hwyluso trafodaethau mwy agored a rhyngweithiol gyda thenantiaid.



# Llais Tenantiaid yn y Senedd:

**1** Rydym yn mynychu ac yn cyfrannu at Grwpiau Trawsbleidiol y Senedd yma:

- **Grŵp Tai**
- **Rhentu Tai ac Eiddo Prydlesol**
- **Tlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni**


Rydym yn cyflwyno i Aelodau'r Senedd, yn cymryd rhan mewn dadleuon ac yn anfon ein cyhoeddiadau ymchwil atynt o'n canfyddiadau Pwls Tenantiaid. Rydym hefyd yn rhannu unrhyw faterion yr ydym wedi'u nodi drwy ein gwranddo ar-lein ac unrhyw adborth sydd gennym o'n digwyddiadau ac ati.

**2** Yn ystod y camau o newid deddfwriaethol ar faterion tai, rydym yn ymgysylltu ag AS penodol i sicrhau bod pryderon tenantiaid yn cael eu codi a'u hystyried.


**3** Pan fydd Papur Gwyn neu Bapur Gwyrdd yn cael ei ryddhau ar gyfer ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru, byddwn weithiau'n anfon ein hymatebion drafft ymlaen at lefarwyr tai amrywiol y pleidiau gwleidyddol a'u swyddogion polisi i helpu i ddylanwadu ar eu cyflwyniadau.

**4** Rydym yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn rheolaidd i bwyllgorau ffurfiol y Senedd – yn dibynnu ar ba bynciau sy'n mynd drwy'r Senedd bob blwyddyn neu ba dystiolaeth y maent yn ei chasglu – neu lle gofynnir i ni roi llais y tenant. Mae hyn yn helpu i lywio syniadau gwleidyddion a llunwyr polisi a dylanwadu ar ddeddfwriaeth.

**5** Rydym wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda staff pwyllgor y Senedd a Chlercod swyddogol sydd wedi ein galluogi i drefnu cyfleoedd i Denantiaid gyfarfod â'r Pwyllgorau neu staff y Pwyllgorau pan fyddant wedi dymuno cael barn tenantiaid ar rywbeth sy'n cael ei drafod yn y Senedd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae hynny wedi bod yn bennaf o fewn tenantiaid y sector rhentu preifat oherwydd deddfwriaeth benodol sy'n effeithio arnynt a'r enghraifft nad oedd ganddynt gyfleoedd eraill i leisio'u barn.



## Yn ogystal: Gwranddo a dylanwadu y tu allan i Gymru



Mae gan TPAS Cymru gysylltiadau agos â chyrrff cysylltiedig yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu mewnwelediadau a chwilio am arferion gorau o genhedloedd eraill. Rydym hefyd yn trefnu digwyddiadau ar y cyd ar draws y 4 gwlad i denantiaid a staff tai ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Mae TPAS Cymru hefyd yn falch o fod yn aelod o Undeb Rhyngwladol y Tenantiaid lle rydym yn rhannu arfer gorau ac ymchwil ar faterion rhentu byd-eang.